# Cyfarfod Chwarterol Llywodraeth Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru (Chwarter 1)

## Cyfarfod rhithwir dros 'Teams'

## 13:30 – 15:30, 30 Gorffennaf 2025

**Yn bresennol:**
Cyngor Llyfrau Cymru
Helgard Krause, Prif Weithredwr [HK]
R. Arwel Jones, Pennaeth yr Adran Datblygu Cyhoeddi [RAJ]
Deborah Wood, Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Dylunio [DW]
Rhian Davies, Rheolwr Cyllid a Busnes [RD]

Llywodraeth Cymru
Swyddog LlC 1 [Cadeirydd]
Swyddog LlC 2 [Cofnodion]

**Yn absennol:**
Swyddog LlC 3

[Mae'r wybodaeth wedi'i hepgor gan ei bod yn ymwneud â mater arall].

Tendr
Roedd RAJ yn gweithio ar ddau tendr mawr, un o'r rhain oedd y gwasanaeth newyddion digidol a'r llall oedd y tendr refeniw Saesneg. Roedd y ddwy broses yn edrych yn rhai arferol ac heb heriau penodol fel y cylch tendro diwethaf.

[Mae'r wybodaeth wedi'i hepgor gan ei bod yn ymwneud â mater arall].

Roedd unrhyw un newydd yn gallu gwneud ceisiadau am lyfrau unigol, ond roedd perygl na fyddai'r Cyngor yn gallu cefnogi gweisg ar y lefel sydd angen. Roedd bron bob gwasg yn codi pryderon am ail-strwythuro, a thorri nifer y llyfrau a gynhyrchwyd oherwydd mai dyna'r unig ffordd i arbed costau. Roedd y Cyngor yn disgwyl byddai pwysau i leihau'r gofyniad o ran niferoedd llyfrau i'w cynhyrchu yn y tendr.

[Mae'r wybodaeth wedi'i hepgor gan ei bod yn ymwneud â mater arall].